

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cyngorwyr J Cleverly, Y Forsey, L Lacey, S Marshall, J Richards, T Suller, H Thomas, C Townsend and T Watkins

Connor Hall (Cyngorydd Craffu)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr

1 Ymddiheuriadau

Cllr William Routley, Meirion Rushworth

2 Datganiadau o ddiddordeb

None.

3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am adborth ynghylch teithio llesol mewn ysgolion. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2021 fel **cofnod gwir a chywir**.

4 Cyllideb 2022-23 a Rhagolygon Ariannol Tymor Canolig

Gwahoddedigion:

Meirion Rushworth – Pennaeth Cyllid

Sally-Ann Jenkins – Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol

Sarah Morgan – Pennaeth Addysg

Robert Green – Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

Cyflwynodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid yr adroddiad a rhoddodd drosolwg.

Cwestiynau:

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am effeithiau hirdymor yr adroddiad.

- Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhagdybiaeth ariannu dangosol iddynt ar gyfer swm y setliad ariannu ar gyfer 2023-24 a 2024-25, nad oedd mor uchel â'r flwyddyn gyfredol. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid fod hyn yn golygu bod yna gynllun tymor canolig gweddol gytbwys, ac er ei fod yn seiliedig ar ragdybiaethau, roedd bod yn y sefyllfa hon yn welliant yn y farchnad.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor ai'r balans mewn llaw y cyfeiriwyd ato oedd y gronfa wrth gefn.

- Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid fod y balans mewn llaw yn cyfeirio at y gyllideb sydd eto i'w dyrannu. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor eu bod yn gwybod pa gyllid craidd fyddai ar gael a'u bod yn gwneud rhagdybiaethau yn seiliedig ar hyn.

Tynnodd aelod o'r pwyllgor sylw at bwysigrwydd ffigurau dangosol y setliad ariannu.

- Cytunodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid a hysbysodd y pwyllgor ei fod yn rhywbeth y gofynnwyd amdano gan ei fod yn galluogi gwaith cynllunio hirdymor a gwneud gwell penderfyniadau. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid hefyd y byddai newidiadau i gasglu data o fudd i Gasnewydd yn y dyfodol agos.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal, beth oedd yr ymateb i'r rhain, a beth sydd wedi'i ddysgu ohonynt.

- Teimlai'r Pennaeth Cynorthwyol Cyllid y byddai'n well i gydweithwyr o feysydd gwasanaeth penodol wneud sylwadau ar hyn ond hysbysodd y pwyllgor fod y prif ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd, gyda sgysiau am y gyllideb ddrafft yn cael eu cynnal gyda'r Arweinydd a'r Cabinet. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid y byddai'n ymgysylltu ymhellach â'r Pwyllgor Craffu, y Fforwm Cyllideb Ysgolion, y Fforwm Partneriaeth Gweithwyr a chyfryngau eraill yn ogystal â'r cyhoedd ar y mater hwn.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor sut y byddai darpariaeth prydau ysgol i blant cynradd yn ystod y tymor a'r gwyliau yn effeithio ar y gyllideb.

- Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys tab ar grantiau i'w cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn yn eu gwybodaeth am y setliad cyllideb ac roedd hyn yn dangos ffrwd grant newydd a fyddai'n cael ei rhoi tuag at y fenter honno. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor y dyrannwyd £40 miliwn iddynt ond eu bod yn aros am ragor o fanylion. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor y byddai hyn ond yn cwmpasu rhan o'r flwyddyn gan nad oedd i fod i ddechrau tan fis Medi ac y byddai'n cael ei gyflwyno'n raddol. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na fyddai cyllid ond yn llenwi'r bwch rhwng prydau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd, yn unol â'r rhwymedigaeth a'r ddarpariaeth 100% o brydau ysgol, a'u bod yn aros am eglurder ynghylch a fyddai hefyd yn talu am brydau yn ystod gwyliau. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu parhau â'r ddarpariaeth drwy wyliau'r haf a thu hwnt, y byddai disgwyl i arian grant wneud hyn.
- Gofynnodd y pwyllgor beth fyddai'n digwydd pe na bai cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn.
- Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid y byddai'n rhaid i'r awdurdod benderfynu a fyddai'n parhau i ddarparu y tu hwnt i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor beth oedd sefyllfa'r awdurdod o ran risg gyda goblygiadau ariannol a pholisi, yn benodol y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

- Hysbysodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid nad oedd unrhyw wybodaeth yn y setliad sy'n ymwneud yn benodol â'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid mai uchelgais polisi tymor hwy oedd hwn ac nad oedd unrhyw eglurder pellach ar hyn o bryd, ac y byddai'n rhaid

iddynt barhau ar y sail sydd ganddynt ar hyn o bryd. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor fod symiau sylweddol wedi'u dyrannu ar gyfer gofal cymdeithasol yn eu cynnig cyllideb.

- Gofynnodd y pwyllgor a oedd rhybudd teg wedi bod cyn y rhain.
- Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor, gan ddefnyddio'r enghraifft o ddarpariaeth prydau ysgol, er y gallai fod trafodaethau anffurfiol wedi bod, na chafodd ei hysbysu'n bersonol.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd unrhyw wahaniaethau pellach i'r gyllideb oherwydd newidiadau newydd.

- Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid y cynnydd i Yswiriant Gwladol, a oedd yn fenter gan Lywodraeth y DU ac a fyddai'n cael ei gasglu drwy'r cynnydd yng nghyfradd yswiriant gwladol y cyflogwr. Amlygodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod Llywodraeth Cymru wedi gweld setliad hael o gyllid bloc craidd y DU, gan gynnwys y gyfran o'r cyllid y rhagwelwyd y byddai hyn yn ei chreu. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid fod cyfeiriad yn y llythyr a ddaeth gydag ef gan Lywodraeth Cymru y byddai hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu'r staff yr hyn y maent yn ei haeddu, yn benodol ym maes gofal cymdeithasol ac wrth ddarparu cyflog byw gwirioneddol a oedd wedi'i gynnwys yn y cyllidebau hyn.

Dywedodd aelod o'r pwyllgor nad oedd yn ymddangos bod yna bolisi o dorri costau.

- Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid fod yr awdurdod mewn sefyllfa wahanol eleni a'r unig arbedion sy'n cael eu cynnwys yw'r rhai a gynigiwyd y flwyddyn flaenorol. Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid wrth y pwyllgor nad oedd unrhyw arbedion newydd yn cael eu ceisio gan fod y balans hwnnw mewn llaw. Anogodd y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid feysydd gwasanaeth i barhau i chwilio am werth am arian ac effeithlonrwydd er gwaethaf hyn.

ADDYSG

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor pa gymorth yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn ei roi i ysgolion wrth weithredu'r cwricwlwm newydd.

- Hysbysodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor fod ysgolion yn cael eu cefnogi ar lefel bwrpasol a chyffredinol. Nododd y Pennaeth Addysg fod cyrsiau dysgu proffesiynol penodol yn cael eu darparu ar gyfer yr holl staff ond eu bod hefyd i gefnogi'r arweinydd dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol. Nododd y Pennaeth Addysg mai cyfrifoldeb yr ysgolion oedd penderfynu sut olwg fyddai ar y cwricwlwm. Cydnabu'r Pennaeth Addysg yr anhawster y mae staff yn ei wynebu o ran mynychu cyfarfodydd a chaniatáu i waith arall gael ei wneud gan athrawon yn ystod y pandemig am nifer o resymau, ond sicrhodd y pwyllgor fod yr awdurdod lleol a'r cynghorwyr herio partner yn cyfarfod â phenaethiaid yn eu tro i weld cynnydd, i gynghori ar y camau nesaf, ac i sefydlu pa gymorth fyddai ei angen. Nododd y Pennaeth Addysg fod adborth yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru ar y rhain.
- Gofynnodd y pwyllgor p'un a oedd gan Gyngor Dinas Casnewydd y gallu i gynorthwyo pe bai ysgolion yn profi anawsterau.
- Nododd y Pennaeth Addysg fod cyfle i siarad am sefyllfa'r ysgol drwy gyfarfod drwy'r sesiynau hyn. Nododd y Pennaeth Addysg eu bod wedi penderfynu peidio ag archwilio ysgolion i liniaru rhywfaint o'r pwysau y mae ysgolion yn eu hwynebu ond roedd cyfarfodydd i drafod y cymorth sydd ei angen yn parhau.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd angen mwy o leoedd mewn ysgolion.

- Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth y pwyllgor fod rhagfynegiadau'n cael eu gwneud wrth gynllunio lleoedd ysgol gan ddefnyddio niferoedd y disgyblion sy'n dod drwedd yn y tymor canolig i'r tymor hir a bod y rhain yn pennu p'un a oes angen dosbarthiadau swigen, sydd eu hangen yn yr achos hwn ar gyfer y tymor canolig. Nododd y Pennaeth Addysg y gall y rhagfynegiadau hyn newid yn rheolaidd o ganlyniad i lawer o ffactorau ond roeddent yn canolbwyntio ar ragamcanion drwy'r grwpiau i drefnu unrhyw newidiadau yn y dyfodol.
- Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd y rhagfynegiadau yn rhy isel ynglŷn ag Ysgol Parc Jiwbilî gan fod yr angen yn ymddangos yn fwy na'r ddarpariaeth.
- Hysbysodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor fod darpariaeth yn yr ysgol honno wedi'i seilio ar ragfynegiadau gan arweinydd datblygwyr.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd potensial i faterion tebyg godi.

- Dywedodd y Pennaeth Addysg fod lleoedd ychwanegol wedi'u cynnwys yn natblygiad Ysgol Whitehead a hefyd byddai Ysgol Pilgwenlli yn cael ei newid i ddarpariaeth Gymraeg a byddai lleoedd ychwanegol yno.
- Nododd y Pennaeth Addysg na allai'r awdurdod fforddio adeiladu ysgolion lle nad oedd tystiolaeth o'u hangen. Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn monitro lleoedd dros ben ac felly na ddylai fod gan yr awdurdod ormod.
- Gofynnodd aelod y pwyllgor p'un a oedd Parc Jiwbilî yn wers a ddysgwyd neu a oedd tebygrwydd y byddai'r sefyllfa hon yn cael ei dyblygu yn y dyfodol?
- Sicrhodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor eu bod bob amser yn adfyfyriol, ond ni allai ei galw'n wers a ddysgwyd gan y byddai'n rhaid iddynt wneud adolygiad llawn.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a fyddai'r newidiadau i'r rhaglen anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ym mhob ysgol a sut y trefnodd rhieni i blant gael eu hasesu.

- Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth y pwyllgor mai'r disgwyl oedd ffocws ar waith ymyrraeth gynnar gyda rhieni i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu heb fod angen datganiad. Teimlai'r Pennaeth Addysg fod ffyrdd gwell o ddosbarthu cyllid i ysgolion er mwyn iddynt roi gwell darpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi'i thargedu ar waith.
- Nododd y Pennaeth Addysg y byddai ysgolion yn cydweithio drwy arweinydd clwstwr.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd arian wedi'i ddyrannu ar gyfer hyfforddi staff ar gyfer ADY.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod amrywiaeth o gyllid a chefnogaeth wedi bod ar gael dros y blynyddoedd, a bod rhwydweithiau o grwpiau wedi'u sefydlu i sicrhau eu bod yn cael eu paratoi a'u cefnogi, ac mae hyn yn cael ei ailadrodd gyda phenaethiaid.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor pa fesurau a chyllid oedd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cefnogi plant â phroblemau iechyd meddwl.

- Hysbysodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor fod nifer o fecanweithiau cymorth, gan gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer cwnsela mewn ysgolion y gallent hunanatgyfeirio ato. Nododd y Pennaeth Addysg y cyllid penodol ar gyfer ymagwedd ysgol gyfan at lesiant meddyliol ac emosiynol.
- Roedd yr aelod o'r pwyllgor yn pryderu y gallai'r broses o hunanatgyfeirio olygu na fyddai rhai plant yn cael eu hadnabod. Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg

fod hyfforddiant i gefnogi athrawon i nodi plant sy'n cael trafferth ac i gynnig cymorth.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd unrhyw ffigurau ar gyfer plant ym mhob ysgol ag anableddau a phroblemau iechyd meddwl?

- Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth y pwyllgor eu bod yn cofnodi plant ag ADY a'r mathau o ADY sydd ganddynt ac yn monitro tueddiadau i gael y newydd diweddaraf.
- Hysbysodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor fod data'n cael ei gadw ar gyfer niferoedd y plant a atgyfeiriwyd at gwrsela mewn ysgolion i fonitro defnydd a galw.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd athrawon wedi'u hyfforddi mewn ADY a materion iechyd meddwl cyn cael caniatâd i ddysgu.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod ADY a materion meddyliol ac emosiynol yn cael sylw mewn cyrsiau prifysgol i athrawon a bod rhaglenni sefydlu ar draws y rhanbarth, a reolir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, sy'n canolbwyntio ar lesiant emosiynol a bod y rhain yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn addysgu gyntaf athrawon.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am eglurder ynghylch cyllidebau ysgolion a beth oedd y camau nesaf.

- Nododd y Pennaeth Addysg fod rhwng wyth a deg ysgol mewn blynyddoedd blaenorol â diffyg, a oedd wedi gostwng i bedair ysgol ym mis Mawrth 2021, a bod bellach dim ond tair ysgol oedd â diffyg ar hyn o bryd gyda'r potensial i ostwng y ffigur hwn i un.
- Nododd y Pennaeth Addysg fod Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo grantiau sylweddol i gyllidebau ysgolion sy'n cyfrannu at gyfanswm gwarged ysgolion ond mai sefyllfa dros dro yn unig oedd hon.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd unrhyw feysydd risg pellach i'w hystyried wrth bennu cyllideb.

- Tynnodd y Pennaeth Addysg sylw at y ffaith bod cyllid caledi yn dod i ben, a allai beryglu'r trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb mamolaeth, ond eu bod yn aros am eglurder. Nododd y Pennaeth Addysg fod costau glanhau ychwanegol a gwell y byddai'r grant yn talu amdanynt.
- Gofynnodd aelod y pwyllgor p'un a fyddai cyfarpar diogelu personol yn cysylltu â hyn.
- Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg ei bod wedi siarad ag ysgolion a gofyn am eu cynlluniau ar gyfer eu gwarged, a bod llawer o ysgolion wedi disgrifio sefyllfa ansefydlog gan y gallai'r gyllideb fod wedi'i defnyddio ar gyfer costau cyfarpar diogelu personol.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a fyddai codiadau cyflog athrawon yn cael eu trin gan ysgolion unigol neu'r awdurdod cyfan.

- Hysbysodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor na fyddent yn cael eu trin ar unwaith gan nad ydynt yn cael eu penderfynu tan fis Medi. Nododd y Pennaeth Addysg y gallent anrhydeddu codiadau cyflog i athrawon ond na fyddent yn cael eu trosglwyddo tan fis Medi. Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth y pwyllgor, pan oedd ysgolion yn rhagweld gwariant ar gyfer y flwyddyn ganlynol, y gallent gynnwys dim cost ychwanegol ar gyfer codiadau cyflog athrawon.

Tynnodd y Pennaeth Addysg sylw at y ffaith bod pwysau costau ysgolion yn cael eu bodloni, yn ogystal â'r Cabinet yn cynnig y bydd galwadau newydd am ysgolion yn cael eu bodloni. Nododd y Pennaeth Addysg fod £888,000 wedi'i roi yng nghyllideb y Gwasanaethau Addysg i gefnogi'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim, a bod cynigion yn trafod £1.2 miliwn o gyllid newydd i gefnogi anghenion dysgwyr ADY a buddsoddiad mewn swyddogion addysg i gefnogi ysgolion yn uniongyrchol. Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd cyllid yn cael ei roi i glybiau brecwast.

- Hysbysodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant i'r awdurdod lleol yn wreiddiol oherwydd bod hawl i blant oedran ysgol gynradd gael brecwast am ddim, ond bod hynny'n dod o dan y Grant Cynnal Refeniw, felly roedd yn anodd penderfynu p'un a oedd clybiau brecwast yn gymwys i gael cyllid o'r grant hwnnw neu a oedd rhaid i gyllideb y cyngor dalu amdanynt.

Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Hysbysodd Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol y pwyllgor mai hon oedd y flwyddyn gyntaf yn ei phrofiad nad oedd y maes gwasanaeth yn cael trafferth dod o hyd i arian. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol y bu rhywfaint o arian ychwanegol ar gyfer plant mewn gofal ag ADY. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol ddatblygiad y ganolfan ddiogelu, a oedd i'w groesawu, ac y byddai presenoldeb addysg dyddiol cyson yn y ganolfan ar gyfer atgyfeiriadau gan ysgolion. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol y cynnydd mawr mewn atgyfeiriadau a welwyd yn dod drwy'r ganolfan ddiogelu. Croesawodd y Cyfarwyddwr Strategol y cyflog byw gwirioneddol, gan nodi bod rhoi hwn ar waith yn y contractau sydd ganddynt gyda darparwyr yn bwysig. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol nad oedd yn mynd i'r afael â'r holl faterion a oedd yn wynebu'r diwydiant, ond ei fod o leiaf yn rhywfaint o gydnabyddiaeth i'r staff. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol eu bod mewn sefyllfa dda ond bod ganddynt rai heriau i'w hwynebu wrth fynd i'r afael â rhai o ganlyniadau'r pandemig. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol y tanwariant sylweddol yn y ddau faes, a oedd yn codi felly oherwydd bod y cyllid grant yn ystumio'r ffigurau gwirioneddol, yn ogystal â'r ffaith bod lleoedd gwag yn rhyddhau arian a bod pecynnau gofal yn methu â chael eu cynnig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor eu bod yn edrych ar sut i weithio drwodd o ystyried y daw grantiau i ben, ond bydd yr anghenion sydd ganddynt o ran caledi yn parhau.

Holodd aelod o'r pwyllgor sut y byddai cynnydd yn cael ei wneud o ran swyddi gwag.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod cadw a recriwtio staff ym mhob maes o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bryder a bod salwch wedi cael effaith wirioneddol ar y gwaith o gyflwyno gwasanaethau. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod gwaith yn cael ei wneud gyda chydweithwyr i fynd i'r afael â hyn yn ogystal â bod â phresenoldeb cyfryngau cymdeithasol da gyda swyddi gwag, sydd wedi arwain at ganlyniadau. Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at yr hyfforddiant cymorth gwaith cymdeithasol sydd i'w gynnig, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r bwrdd iechyd i recriwtio therapyddion galwedigaethol, a rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor nad oedd y rhain i gyd yn faterion Casnewydd yn unig ond eu bod yn bryder yn genedlaethol. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddent yn edrych ar delerau ac amodau a chyflogau swyddi i wneud gwir ymdrech i ddenu pobl i yrfa mewn gofal.
- Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod yna faterion systemig yn hyn o beth, ac er nad effeithiwyd arnynt cynddrwg â rhai, roedd angen mynd i'r afael yn gyson â materion a oedd yn codi.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau oedolion.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol y bu bron i ddwy flynedd o broblemau gwirioneddol yng Nghasnewydd a lleoliadau y tu allan i'r awdurdod ac y byddai'n broblem barhaus. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn dal i fod â chartrefi mewn digwyddiad, bod yr holl staff yn profi'n ddyddiol am COVID-19 a bod mwyafrif y staff wedi cael eu brechu ddwywaith ac wedi cael pigiad atgyfnerthu.
- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod llai o breswylwyr mewn cartrefi gyda rhai wedi gadael a rhai, yn anffodus, wedi marw, yn ogystal â methu derbyn preswylwyr newydd am beth amser pe bai COVID-19 yn bresennol y tu mewn i gartref, a gyda derbyniadau o ysbytai.
- Cynigiodd y Cyfarwyddwr Strategol ofyn i Mary Ryan roi diweddariad ffurfiol ar gartref Parklands i'r pwyllgor.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd staff o breswylfa Casnewydd Oldbrook wedi'u symud drosodd i breswylfeydd eraill.

- Cynigiodd y Cyfarwyddwr Strategol ddiweddarau'r aelod ar hyn ar wahân.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a fyddai cynghorau lleol yn cydweithio ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru a sut yr oedd y Cyfarwyddwr Strategol yn gweld y bartneriaeth honno'n datblygu.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol fod Casnewydd yn dod o dan gonsortia Gwent, a oedd yn cael ei reoli ym Mlaenau Gwent a'i staffio yn Nhorfaen. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod pob un o'r pum cyngor yng nghonsortium Gwent wedi cyfrannu cyllid at y rhaglen. Pan gafodd y rhaglen ei chreu, roedd creu cyllideb ar ei chyfer yn ddryslyd gan fod yr awdurdodau lleol yn rhoi eu holl gyllidebau mabwysiadu presennol ynddi, sydd bellach wedi'i gydnabod yn annheg. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus gan fod llai o blant yn cael eu lleoli i'w mabwysiadu y tu allan i Went, ac er ei fod yn dal yn heriol gyda rhai lleoliadau, roedd y gefnogaeth a gynigiwyd yn wych.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor faint o blant oedd yn cael eu mabwysiadu o'r ardal.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol fod rhwng 25 i 40 o blant wedi eu mabwysiadu o'r ardal.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd y rhai a oedd yn gadael yr ysbyty i gael eu rhoi mewn gofal yn cael eu profi wrth adael yr ysbyty ac eto wrth ddod i mewn i'r cartref.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn cael eu profi wrth adael yr ysbyty ac wrth ddod i mewn i'r cartref.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd y plant yn y ganolfan ddydd ar sail barhaol wedi dod o hyd i gartref parhaol.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol fod hyn wedi digwydd.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor sut oedd y broses fabwysiadu ar gyfer plant hŷn.

- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor ei fod yn fwy heriol gyda phlant hŷn ac yn gyffredinol nid oeddent yn ceisio mabwysiadu ar gyfer plant dros bump oed, gyda maethu tymor hir yn fwy cyffredin.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd y ganolfan gofal dydd ym Malpas am gael ei chau.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol ei bod wedi'i chau ar ddechrau'r pandemig er mwyn diogelu iechyd y rhai a fynychodd gan eu bod yn arbennig o agored i niwed.
- Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn edrych ar opsiynau wedi'u teilwra'n fwy ar gyfer unigolion, a oedd wedi'u cyflymu gan y pandemig, ond yn canolbwyntio ar weithgareddau cymunedol a chefnogi dod o hyd i'r hyn sy'n iawn i'r unigolyn ac ar gyfer gwneud pethau gwahanol.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd y pandemig wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu symud o'u cartrefi dros dro.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod yr effaith ar deuluoedd wedi bod yn sylweddol i rai teuluoedd a bod cynnydd mawr wedi bod mewn atgyfeiriadau.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor beth oedd yr heriau mwyaf ar gyfer y cyfnod 2022-23 a'r cyfnod 2022-25.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod heriau yn cynnwys sut y byddent yn talu'r cyflog byw newydd a sut olwg fyddai ar hynny a "gwneud pethau'n iawn" gyda darpariaeth gofal cartref a gwella'r gofal a gwasanaethau cyffredinol i oedolion. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod heriau yn y gwasanaethau plant yn parhau i fod yn lleoliadau a'u gwaith tuag at raglen y llywodraeth i ddileu elw mewn gofal cymdeithasol plant. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol mai'r her gyffredinol fyddai clymu'r holl feysydd a'u gwella gyda'i gilydd, yn ogystal â staffio, a oedd yn parhau i fod yn broblem.

Nododd aelod o'r pwyllgor ei bod yn ymddangos bod yna bolisi o "wario nawr i arbed yn hwyrach" a gofynnodd p'un a oedd unrhyw gynlluniau posib ar gyfer y dyfodol.

- Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol y gwaith sy'n cael ei wneud i blant ag ADY, data'n cael ei ddatgelu bod gostyngiad o 48% wedi bod yn nifer y babanod newydd-anedig sy'n cael eu tynnu o deuluoedd, y seminar Babi a Fi a fyddai'n cael ei gynnal ar gyfer aelodau, a'u bod yn lansio Strategaeth Cam-fanteisio ar Blant.
- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol y pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu datrysiadau technolegol a digidol i bobl hŷn a theimlai fod lle gwirioneddol i waith yn y maes hwn yn y dyfodol.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd cronfeydd neu gyllid cyfarpar diogelu personol ar gyfer staff.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod y grantiau caledi yn dod i ben, a fyddai'n peri problem, ac y byddai'n rhaid iddynt barhau i fonitro'r sefyllfa.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a fyddai'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn debyg i'r gwasanaeth maethu ar-lein.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod y fenter hon yn dal i fod gryn dipyn i ffwrdd, a'r pethau uniongyrchol o fewn y rhaglen a fyddai'n newid oedd pryddau ysgol am ddim a dileu elw mewn gofal cymdeithasol plant. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol mai'r prif ffocws, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, oedd ar setliadau cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf a sut i ysgogi rhaglenni.

Dywedodd aelod o'r pwyllgor mai'r unig ffordd wirioneddol o ddiolch i staff yw trwy eu pecyn cyflog.

Roedd aelod o'r pwyllgor yn meddwl tybed a oedd tystiolaeth bod angen ar ysgol uwchradd arall.

- Sicrhaodd y Pennaeth Addysg y pwyllgor y byddent yn parhau i fonitro hyn, ond roedd ymchwydd o blant cynradd i uwchradd ar hyn o bryd, ac y byddai'n rhaid iddynt ailasesu p'un a oedd unrhyw faterion hirdymor. Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod lleoedd gwag o hyd yn Llan-wern ac ysgolion eraill.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor p'un a oedd mwy o alw am ysgolion cyfrwng Gymraeg

- Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod y galw yn cynyddu.

Nododd aelod o'r pwyllgor fod Ysgol Feithrin Kimberly ar fin symud ond roedd oedi, a gofynnodd am ddiweddariad.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod hynny'n dal yn wir.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am eglurder ynghylch y newid yng nghost incwm prydau bwyd.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod y rhain yn cael eu trafod ac y byddai ateb yn cael ei ddwyn yn ôl.
- Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol mai ymwelwyr â sefydliadau oedd hyn.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am dynnu sylw at y paragraff ynghylch darpariaeth Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer trigolion.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am reswm pam fod taliadau cyfreithiol wedi codi 100% i drigolion.

- Nododd yr Uwch-bartner Busnes Cyllid y bernir bod y gost gyfreithiol flaenorol yn annigonol i dalu costau cyfreithiol a bod y ffigwr wedi'i awgrymu gan adran y gyfraith fel cynnig. Nododd yr Uwch-bartner Busnes Cyllid nad oedd yn ymwneud â chynnydd ond yn adlewyrchiad cywir o gost.

5 Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau

Addysg

Gofynnwyd p'un a oedd y cyngor yn sicr y bydd y Grant Cynnal Refeniw yn cwmpasu'r fenter prydau ysgol am ddim yn y dyfodol – drwy gydol y flwyddyn ysgol a'r gwyliau. Holodd rhai o aelodau'r pwyllgor p'un a fyddai disgwyl i Gyngor Dinas Casnewydd dalu'r gost yn y dyfodol.

A oes unrhyw angen am ysgol uwchradd arall yn y tymor canolig ac, os felly, a yw cyllid yn cyfrif amdani?

Gwasanaethau Cymdeithasol

Sut byddai'r cynnydd yn y cyflog byw a'r cyflog byw gwirioneddol yn effeithio ar gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ac a yw hyn wedi'i gostio?

Gofynnwyd am eglurder ynghylch incwm prydau bwyd yn gostwng i sero a thaliadau cyfreithiol yn dyblu (tudalen 53 yn yr adroddiad) – a yw'r ddau newid hyn yn hanfodol a sut y byddant yn effeithio ar y gyllideb yn gyffredinol?

6 Adroddiad Cyngorydd Craffu

Bu'r Cyngorydd Craffu yn trafod dyddiad y cyfarfod nesaf â'r pwyllgor, sef 29 Ebrill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf
22 Mawrth 2022

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified